PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 24 | Mehefin 13, 2024 | 50c.




## Capel Glynarthen, Ceredigion



Yn yr oes anodd hon o ddyfalbarhad yn ein Heglwysi, dyma newyddion calonogol iawn fod pedwar o bobl ifanc wedi eu derbyn yn gyflawn aelodau o eglwys Glynarthen. Yn y llun gwelir y pedwar gyda'r gweinidog, y Parchedig Carys Ann, sef Dafydd Jones, Cennydd Jones, fferm Deiniol, Glynarthen, Heddwyn Phillips a Rhiannon Phillips, fferm Waunfawr, Glynarthen. Bu'r pedwar ers eu plentyndod yn mynychu'r Sul a'r oedfaon yn ffyddlon. Wrth iddynt gael eu derbyn i eglwys Iesu Grist, dymunwn bob bendith iddynt i'r dyfodol.

## Siloam, Talwrn, Môn



Cafwyd gwasanaeth arbennig iawn brynhawn ddydd Sul, 21 Ebrill o dan arweiniad y Parchedig Hugh Pritchard pan groesawyd pum aelod newydd i ymuno â'r gynulleidfa yn Siloam. Enwau'r newydd ddyfodiaid oedd Ann Jones, Janice Davies, Nia Pritchard, Jean ac Islwyn Humphreys. Dymunwn bob bendith iddynt yn ein plith.

**Bethan Wyn Jones**

## Ffynhonnau Byw ar lan afon Taf

Nid oedd y rhan fwyaf ohonom erioed wedi bwyta bwyd o Golombia, felly roedd cryn gyffro yn ein plith wrth inni fynd i fwyty Wings of Glory yn ardal Glanyrafon yng Nghaerdydd. Bwriad y digwyddiad cymdeithasol oedd codi arian tuag at Apêl Ffynhonnau Byw, Cymorth Cristnogol/ Undeb yr Annibynwyr ac fe gafwyd cryn dipyn o hwyl wrth wneud hynny.

Yn ystod y noson cyflwynwyd nifer o gyrsiau sawrus – gan fwyaf – o fwydydd traddodiadol Colombia. Cafwyd platiau o *empanadas* – pasteiod bychain wedi eu llenwi â briwgig a llysiau; *patacones* – crempogau banana; *arepas de huevos* – teisennau india-corn wedi eu ffrio a'u llenwi â llysiau a chaws; *tortillas* wedi eu gorchuddio gyda chaws a chaserol ffa a reis. Afraid dweud ein bod yn llawn dop erbyn diwedd y digwyddiad. Cynhaliwyd raffl i chwyddo'r coffrau a chwis am y wlad trwy ddefnyddio'r ap Kahoot. Roedd hwn yn gwis difyr iawn gyda lot o firi a thynnu coes.

Diolch i bawb fu'n trefnu'r noson, i bawb a roddodd gyfraniadau at y raffl ac yn enwedig i Catrin Wooler am gario

*parhad ar dudalen 2*



## Ffynhonnau Byw ar lan afon Taf – parhad

pen trymaf y baich o'r trefnu. Llwyddwyd i godi oddeutu £255. (Cynhaliwyd y noson ar nos Iau 23 Mai.)

Y mae un digwyddiad arall gennym i godi arian sef y Drws Agored. Fe'i cynhelir ar ddydd Sadwrn 15 Mehefin o 10yb–2yp yng nghapel y Methodistiaid yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Bydd hwn yn gyfle i gymdeithasu a phaneidio er mwyn codi arian at ddwy elusen sef Money For Madagascar a Ffynhonnau Byw. Byddwn yn gwerthu rhai o bwythweithiau trawiadol a chain y diweddar Eira Jones.

[*Tybed os gan eglwysi eraill, sydd wedi cynnal gweithgareddau i godi arian at yr apêl, hanes a lluniau i'w rhannu gyda'r* Tyst*? Gol.*]




## Etholiad Cyffredinol


Fe ddaeth y cyhoeddiad hirddisgwyliedig y byddai'r Etholiad Cyffredinol yn cael ei gynnal ar ddydd Iau 4 Gorffennaf. Eisoes y mae peiriannau cyfathrebu'r pleidiau gwleidyddol yn eiriasboeth yn cynhyrchu datganiadau, fideos a digwyddiadau i hyrwyddo eu hachosion. Gwn bod nifer o ddarllenwyr *Y Tyst* yn ddiwyd iawn yn gweithredu dros eu pleidiau. Beth am ddanfon pwt i'r *Tyst* yn mynegi eich barn a'ch safbwynt?

Un peth sy'n sicr sydd ei angen, yn ogystal â gweithredu, yw gweddïo y byddwn yn ethol y bobl orau un i'n hetholaethau. Pobl sy'n mynd i weithredu dros gyfiawnder a heddwch gan sefyll gyda'r gwan a'r bregus, ac nid troi'r dŵr i'w melinau eu hunain gan geisio ymelwa.



## Tadau: Joseff ac Iesu

Ers tro bellach, cawn ein cymell i ddathlu a gwerthfawrogi ein perthynas a'n dibyniaeth ar ein tadau daearol ar Sul y tadau. Er yr anogaeth fasnachol, credaf mai Sul y mamau yw'r dathliad pwysicaf o'r ddau yng ngolwg y mwyafrif ohonom. Gwyddom hefyd bod awduron yr Efengylau yn rhoi blaenoriaeth amlwg iawn i Fair, mam Iesu, tra mae Joseff yn cael ei gadw yn y cysgodion. Does dim un o'r pedair efengyl yn dyfynnu unrhyw air o enau Joseff. Cafodd Joseff a Mair hyd i'r crwt deuddeg oed oedd ar goll, yn y deml yn Jerwsalem. Sylwer mai cerydd Mair ac



nid Joseff a ddyfynnir gan Luc: 'dyma dy dad a minnau yn llawn pryder wedi bod yn chwilio amdanat.' (Luc 2: 48b.)

### Geni Iesu

Mae'n syndod mai Mathew a Luc yn unig sy'n adrodd am eni Iesu. Nid yw'r Efengyl yn ôl Marc (a ystyrir yr efengyl gynharaf) yn crybwyll geni Iesu. Cychwynnir yr efengyl gyda gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr a bedydd Iesu yn yr Iorddonen.

Nid yw'r efengyl yn ôl Ioan na holl lythyrau Paul yn cyfeirio at eni'r Iesu.

Mae Mathew yn cyflwyno ei efengyl gyda rhestr helaeth o achau Iesu. Yn Mathew 1:16 gwelir, 'Yr oedd Jacob yn dad i Joseff, gŵr Mair, a hi a roddodd enedigaeth i Iesu a elwid y Meseia ... Fel hyn y bu genedigaeth Iesu Grist. Pan oedd Mair ei fam wedi ei dyweddïo i Joseff, cyn iddynt briodi fe gafwyd ei bod hi'n feichiog o'r Ysbryd Glân.' Nid yw rhestr llinach deuluol Iesu yn Luc 3:23-38 yn cytuno â'r rhestr yn Mathew 1:1-17, er bod y ddau yn cynnwys Joseff ymhlith yr enwau.

### Y geni gwyrthiol

'A digwyddodd hyn oll fel y cyflawnwyd y gair a lefarwyd gan yr Arglwydd trwy'r proffwydi: "Wele, bydd y wyryf yn beichiogi, ac yn esgor ar fab, a gelwir ef Emmanuel." ' [Mathew 1:22-23] Roedd Mathew wedi ei argyhoeddi bod Iesu wedi ei eni o forwyn ar sail cyfeiriadau ym Meibl yr Iddewon (a fabwysiadwyd fel yr Hen Destament i'w gynnwys yn rhan o'r Beibl Cristnogol dros gyfnod o ganrifoedd). Dyma'r adnod allweddol a welir yn Llyfr Eseia: 'Am hynny, y mae'r Arglwydd ei hun yn rhoi arwydd i chwi: "Wele ferch ifanc yn feichiog, a phan esgor ar fab, fe'i geilw'n Immanuel." ' [Eseia 7:14]

Mae trafodaeth ymhlith ysgolheigion Y Beibl Hebreig pa sgroliau a briodolir i Eseia oedd Mathew wedi eu defnyddio. Mae'r term a geir yn yr Hebraeg (Eseia 7:14] *almah* yn golygu 'merch ifanc' ond y gair a ddefnyddir yn yr LXX (y cyfieithiad o'r adnod mewn Groeg) yw *parthenos* sef morwyn (virgin). Un esboniad posibl yw bod Mathew wedi defnyddio sgrôl Eseia mewn Groeg yn hytrach na'r un cynharaf yn yr Hebraeg oherwydd ei fod yn fwy cyfarwydd â Groeg ac felly'n defnyddio'r gair 'morwyn' yn hytrach na 'merch ifanc'.

*bydd y rhan nesaf o'r erthygl yma yn rhifyn wythnos nesaf*

Yr Adran Gydenwadol

MEHEFIN 13 2024 RHIF 172

## Dathlu ffyddlondeb – gwasanaeth cyflwyno medalau Gee



Ddydd Sul, 19 Mai, a hithau'n brynhawn braf o haf, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yng Nghapel Seion, ger Aberystwyth. Croesawyd pawb yn gynnes gan Mrs Ina Tudno Williams, ysgrifenyddes y capel, cyn iddi drosglwyddo'r awenau i'r gweinidog, y Parchg Ddr Watcyn James, a bwysleisiodd gyfraniad gwerthfawr yr ysgol Sul wrth i bobl ymgynnull i astudio'r Gair. Fe'n hatgoffwyd o'r emyn 'Am yr ysgol rad Sabothol' ac mai dyna lle y ceir 'yr addysg orau / Addysg berffaith llyfr y llyfrau'.

Yn y rhannau arweiniol darllenwyd gan ddau o ieuenctid capeli Capel Seion a Phenllwyn, sef Celt (Salm 19) a Tomos (1 Pedr 1:10–12). Cyflwynwyd emyn gan blant Ysgol Sul Capel Seion.

Cafwyd cyfarchiad gan Dr Rhidian Griffiths, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro. Clywsom ganddo ychydig am Thomas Gee, y cyhoeddwr llyfrau ac fel y bu iddo gyhoeddi'r llyfr emynau cydenwadol Cymraeg cyntaf.

Y Parchedig Aled Davies, Cyfarwyddwr y Cyngor Ysgolion Sul, a roddodd beth o hanes y medalau Gee a gyflwynir yn flynyddol er cof am Mr a Mrs Thomas Gee, Dinbych, i gydnabod ffyddlondeb i'r ysgol Sul. Cafwyd esiampl ganddo o'r modd y gall y seiliau cadarn a osodir yn yr ysgol Sul ddylanwadu ar eich bywyd a'ch gwaith.

Rhoddwyd y fraint o gyflwyno'r medalau i'r Parchedig Aled Davies a'r Parchedig Ddr Watcyn James. Yna, cafwyd cyfarchiad gan Mr Alwyn Hughes, Cadeirydd Gofalaeth y Garn.

Braf oedd gweld y capel yn gyfforddus lawn, gyda theulu a ffrindiau'r saith a dderbyniodd fedal Gee wedi dod o bell ac agos.

Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd cyfle i sgwrsio dros gwpanaid o de a lluniaeth.

*Delyth Davies*

Gwelir yn y llun (o'r chwith i'r dde) y saith a dderbyniodd y fedal yn yr oedfa, ynghyd â'r Parch. Ddr Watcyn James a'r Parch. Aled Davies

Cyfrannodd **Magdalen** (Mags) **Davies** yn llawn dros y blynyddoedd i fywyd Capel Seion a'r ysgol Sul lle mae'n aelod ffyddlon. Bu'n athrawes yno ac y mae hyd heddiw yn cyfrannu'n llawn i drafodaethau dosbarth yr oedolion.

Treuliodd Magdalen ei hoes yng nghysgod enwau Beiblaidd. O'i geni ym Methania treuliodd ran helaethaf ei hoes yn ardaloedd Moreia a Chapel Seion! Bu'n gyrru ambiwlans am 15 mlynedd cyn ymroi i fod yn nyrs am weddill ei gyrfa. Bu'n aelod o barti canu'r capel ac mae'n ymddiddori mewn gwahanol agweddau ar ddiwylliant y fro.

O ardal Tal-y-bont yn wreiddiol y daw **Eirlys Jones**, ond bu'n mynychu Ysgol Sul Capel Seion ers 1965 – pan nad oedd galwadau gwaith neu heriau bywyd yn rhwystro hynny. Ni fyddwch yn siarad ag Eirlys am yr ysgol Sul heb iddi gyfeirio at ei mam-gu ('mam fach') a'i dylanwad arhosol arni. Bydd yn sôn sut y manteisiodd ei mam-gu ar yr addysg a gaed yn ysgol Sul a'r cyfleoedd addysgol a ddaeth i'w rhan mewn cyfnod pan oedd cyfleoedd addysg i ferched yn brin iawn. O'r gwerthfawrogiad hwnnw o gwmnïaeth glòs yr ysgol Sul y tyfodd ymlyniad Eirlys hithau i'r ysgol Sul.

Mae **John Gwynn Jones** yntau'n aelod ffyddlon a gweithgar o fywyd Capel Seion ac ni fu unrhyw adeg nad oedd yn ymwneud â'r ysgol Sul. Bu yn ei dro yn athro ac yn arolygydd. Mae ei drylwyredd a'i ofal wrth baratoi yn nodwedd o'i arweiniad i'r dosbarth. Ef gyflwynodd hanes diweddar yr achos yng Nghapel Seion pan ddathlwyd 200 mlynedd ers sefydlu'r achos ym mro'r Paith.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

*Dathlu ffyddlondeb – gwasanaeth cyflwyno medalau Gee*

*(parhad o dudalen 1)*

Er bod ardal ei fagwraeth ym Mlaenpennal a Phen-uwch yn annwyl iddo, cartrefu a wnaeth, wedi priodi, yng Nghapel Seion. Fel llyfrgellydd teithiol yn y sir, mae ei adnabyddiaeth o'i phriffyrdd a'i lonydd culion yn rhyfeddol! Bu'n darlithio mewn cymdeithasau lleol ledled Ceredigion am hanes a diwylliant y fro.

Ni fu adeg nad oedd **Aeronwy Lewis** yn mynychu'r ysgol Sul yn ffyddlon. Wedi dechrau ar ei thaith yn Aberffrwd, Cwm Rheidol, symudodd Aeronwy i Benllwyn. Ac er iddi dreulio ychydig amser ym metropolis Aberystwyth, dychwelyd i harddwch Penllwyn a wnaeth. Bu Aeronwy yn aelod, yn gyd-drefnydd yr ysgol Sul, yn drysorydd yr ysgol Sul ac yn athrawes weithgar ym Mhenllwyn rhwng 1956 a 2022. Mae'n aelod ffyddlon yn y capel a chyfrannodd at redeg Clwb Hwyl Hwyr yn Ysgol Penllwyn am flynyddoedd. Bu'n gweithio yng Nghanolfan y Fridfa Blanhigion Gymreig ac yn un o brif sylfaenwyr y Cylch Meithrin. Cyfrannodd hefyd i ddiwylliant ehangach y fro mewn partïon gwahanol ac i ddramâu byr yn y pentref.

Mae **Heulwen Lewis** wedi mynychu'r ysgol Sul ym Mhenllwyn ar hyd ei hoes, lle bu'n Arolygydd yr ysgol Sul ac yn athrawes am dros 50 mlynedd. Hi hefyd yw Ysgrifennydd Capel Penllwyn. Bu'n selog ei chefnogaeth i'r Gymanfa Ganu ac i Bwyllgor Plant ac Ieuenctid yr Henaduriaeth. Cyfrannodd i Glwb Hwyl Hwyr yr ysgol ac mae'n parhau i fod yn aelod o dîm Agor y Llyfr. Yn ogystal â magu ei theulu, bu Heulwen yn gweithio fel ysgrifenyddes yn Ysbyty Bronglais, yn cynorthwyo yn ysgol Penllwyn a Phenweddig, ac yna yn adran Addysg y Cyngor Sir. Bu'n aelod ffyddlon o gôr Penrhyn-coch ac o gôr yr Eisteddfod Genedlaethol yn Aberystwyth. Mae ei gofal dros eraill a'i chymwynasgarwch yn adnabyddus i bawb a ddaeth i gysylltiad â hi.

Gwasanaethodd **Ina Tudno Williams** yr ysgol Sul yng Nghapel Seion am dros 40 mlynedd a hynny wedi iddi fod yn athrawes yn Seilo, Aberystwyth, am 10 mlynedd. Er iddi dreulio'i phlentyndod a'i hieuenctid yn ardaloedd Llangybi, Llanwrda a Llandybïe, ymgartrefodd yng Ngheredigion gan osod ei gwreiddiau'n ddwfn yn ardal y Paith. Fel ysgrifennydd y capel a threfnydd pregethwyr y Sul, fel un sydd wedi cyfrannu'n ehangach i Bwyllgor Plant ac Ieuenctid yr Henaduriaeth ac i Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De, mae wedi cyfrannu'n helaeth i fywyd Cristnogol y fro. Treuliodd Ina Tudno Williams ei gyrfa fel athrawes fro yng Ngheredigion ac yna fel darlithydd yn yr Adran Addysg yn y Brifysgol yn Aberystwyth. Gwasanaethodd hefyd fel Ynad Heddwch. Cyfrannodd yn helaeth i gorau, partïon ac i gymdeithasau diwylliannol lleol.

Mae gan y **Parch. Ddr John Tudno Williams** gysylltiad ag ysgol Sul Seion ers dros 40 mlynedd. Nid am ei gyfraniad i Ysgol Sul Capel Seion yn unig yr enwebwyd y Parchg Ddr John Tudno Williams. Yr oeddem am ei anrhydeddu am ei gyfraniad i ysgolion Sul ledled Cymru drwy ei esboniadau Beiblaidd, ei gyfraniad i'r dasg o gyfieithu'r Beibl Cymraeg Newydd a ddefnyddir gan eglwysi Cymru i gyd, ei gyfraniad i wybodaeth Feiblaidd drwy ei erthyglau niferus, a'i gyfraniad i addysg ddiwinyddol yng Nghymru.

Treuliodd y Parch. Ddr John Tudno Williams ei blentyndod a'i ieuenctid yn Lerpwl a Llundain. Wedi graddio yn Rhydychen dychwelodd i Gymru ac i Aberystwyth. Fe'i hordeiniwyd dros 60 mlynedd yn ôl yn 1963 a'i sefydlu'n weinidog yn y Borth lle cafodd gyfle, gydag eraill, i sefydlu Ysgol Sul Undebol, oedd gyda'r cyntaf i gael ei sefydlu yng Nghymru. Dyfarnwyd gradd Doethur iddo am ei astudiaeth o gefndir Iddewig Efengyl Ioan. Yn 1966 dechreuodd ddysgu yn y Coleg Diwinyddol, coleg y daeth yn Brifathro arno rhwng 1998 a 2003. Gwasanaethodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar bob lefel o'i threfniadaeth, gan ddod yn Llywydd y Gymdeithasfa yn y De, yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol a chael ei ethol yn Llywydd Cyngor Eglwysi Cymru a Lloegr.

Llawenydd i bawb oedd yn y gynulleidfa oedd cael mynegi ein gwerthfawrogiad am gyfraniad pob un ohonynt yn hybu gwaith yr ysgol Sul yn y fro.

## Gwylnos dros heddwch ar faes Eisteddfod yr Urdd – ieuenctid Cymru yn apelio am gadoediad yn Gaza

Nos Wener, 31 Mai, cynhaliwyd gwylnos ar faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Maldwyn i wrthdystio yn erbyn ymosodiadau Israel ar ddinas Rafah yn Gaza. Hon oedd yr wylnos gyntaf i gael ei threfnu gan yr Urdd ar faes yr Eisteddfod, a hynny yn dilyn galwad gan nifer o ieuenctid o fewn yr Urdd.

Ddeuddydd ynghynt, roedd yr Urdd wedi apelio ar wleidyddion i bwyso am gadoediad yn y rhyfel. Wrth siarad ar lwyfan y brifwyl, ac yntau'n llywyddu'r prif seremonïau eleni, dywedodd y bardd ifanc Iestyn Tyne: 'Dydy terfynu bywydau miloedd ar filoedd o blant ddim yn ymateb rhesymol i unrhyw weithred dan unrhyw amgylchiadau.' Ychwanegodd fod yr Urdd, yn 'galw eto – galw'n gliriach, galw'n uwch am gadoediad llwyr yn Gaza'.

Dywedodd Siân Lewis, Prif Weithredwr y mudiad, hefyd ar faes Eisteddfod yr Urdd ei bod yn 'anodd anwybyddu erchylltra digwyddiadau Rafah yr wythnos hon'.

Daeth cynulleidfa o tua 200 ynghyd i'r wylnos, a chafwyd cyflwyniadau grymus gan nifer o siaradwyr ifanc. Llywyddwyd y cyfarfod gan Llio Maddocks, trefnydd yr ŵyl, a braf oedd gweld swyddogion yr Urdd hefyd yn bresennol. Roedd Cadi Glwys wedi paratoi cerdd ar gyfer yr achlysur, a braf yw cael cyhoeddi honno yn *Cenn@d*.

Diolch am yr hanes cyfoethog sydd gan yr Urdd o ymgyrchu tuag at greu byd heddychlon, ac am y neges heddwch ac ewyllys da sy'n cael ei rhannu i bob rhan o'r byd. Braint oedd cael bod yn yr wylnos yng nghwmni cynifer o ieuenctid Cymru.

*Aled Davies*





tap. hoffi. sgrôl.
mae skinny jeans yn ôl!
tap. hoffi. snap.
dileu Palesteina o'r map.
tap. hoffi. clic.
sbia, cath yn chwarae tric!
tap. hoffi. ping.
ydy Gaza dal yn thing?

oeda.
sobra o sbri y sgrôl, a gwranda.
taflegrau'n peri dagrau.
gobaith yn ceulo'n y craciau.
ŵyn di-fugail, clyw di eu cri?
deugain mil... a dal i gyfri.

**cadi glwys**

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




### Pennod 28
### Ble mae Myanmar?

### Darlleniad: Mathew 7:7–12
'Pa beth bynnag y dymunwch i eraill ei wneud i chwi, gwnewch chwithau felly iddynt hwy; hyn yw'r Gyfraith a'r proffwydi.' (adn. 12)

### Gweddi
Nefol Dad, ceisiwn agosáu atat o'r newydd gan ofyn am dy arweiniad a'th fendith heddiw. Trugarha wrthym, a ninnau yn ein pryderon personol a heb roi digon o amser i feddwl am drueiniaid tlawd ein byd. Nodwyd 80 mlynedd ers D-Day gyda lluoedd arfog cynifer o wledydd yn cychwyn ar yr her o ryddhau gwledydd Ewrop o afael Hitler. Gwyddom fod dros ugain rhyfel yn dal yn digwydd ar draws y byd nawr, a'n gweddi yw 'am heddwch dros wyneb daear lawr'. Amen.

### Cyflwyniad
Ar 6 Mehefin, darlledwyd cyfarfodydd y cofio a'r diolch am ddewrder y miloedd ar filoedd o filwyr a aeth i'r gad gan fod yn ymwybodol na fyddai pawb yn dychwelyd adref yn fyw. Wrth gydnabod arswyd ac erchyllterau'r ddau ryfel mawr a fu ar dir Ewrop yn hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf, cofiwn fod ugain gwlad a mwy yn wynebu rhyfeloedd heddiw. Rhyfeloedd cartref yw'r mwyafrif ohonynt, gyda llawer ar gyfandir yr Affrig. Byddwn yn parhau i arswydo wrth weld beth sydd wedi digwydd ar dir Wcráin ac ar dir Gaza yn ystod y cyfnod diweddar. Dywed Iesu mai camgymeriad yw barnu pobl eraill, heb gydnabod yn gyntaf ein beiau ein hunain. 'Heb ei fai, heb ei eni' medd y ddihareb, ond mae'n anodd peidio arswydo at erchyllterau'r hyn sy'n digwydd yn Myanmar nawr, a'r rheibio anwar sydd ar droed yn Sudan a gwledydd eraill ar gyfandir yr Affrig.

### Myfyrdod
Ciliodd enw Myanmar o sylw'r wasg a'r cyfryngau torfol dros y pum mlynedd diwethaf. Prin y bydd gan lawer ohonom unrhyw syniad o'i leoliad, mae'n siŵr! O'r braidd ein bod yn sylwi ar y trasedïau sy'n digwydd yno, ac mae'r cyfan yn fwy nag y gallwn ei amgyffred. Mae rhyfel cartref yn Myanmar – gwlad ag India a Phacistan i'r gorllewin, China i'r dwyrain, a Laos a Thailand i'r de – ers degawdau. Bydd gweddillion yr NUG (National Unity Government), sef uned filwrol yn cynrychioli'r cyn-lywodraeth genedlaethol, yn chwilio am gefnogwyr Byddin Arakha (AA) er mwyn dial arnynt. Beth bynnag yw'r rheolau mewn rhyfel, prin fod y carfanau arfog hyn yn ystyried beth sy'n digwydd. Os ydych yn medru chwilio am wefannau newyddion ar eich cyfrifiaduron a holi am rhyfeloedd fel yr un sy'n digwydd yn Myanmar neu Dde Sudan, Chad, Mali, Congo, Afghanistan, Yemen, ac enwi ond ychydig, yna plis gwnewch. Bydd gofyn darllen hanes pob gwlad ar ôl sylwi ar ei hystadegau a'i dioddefaint.

Bron yn ddieithriad, gwahaniaethau hiliol o fewn gwladwriaeth a hawliau tir ac eiddo sy'n tanio'r brwydrau hyn. Er nad yw ystadegau'r marwolaethau na'r difrod i'w cymharu â'r hyn sy'n digwydd yn Gaza ac Wcráin heddiw, yr un yw gradd y barbareiddiwch anwaraidd. Gwae ni rhag ymbellhau oddi wrth geisio deall beth sy'n digwydd, ac estyn gweddi yn eiriol drostynt.

Mae cân Dafydd Iwan yn dweud, 'Rwy'n frawd i ti a thithau'n frawd i minnau', gan droi'r dieithryn yn berthynas, a'r gelyn yn gyfaill.

### Gweddi
Diolchwn am bob asiantaeth sy'n ceisio ailadeiladu cymunedau yn dilyn rhyfeloedd ac am bob corff sy'n cynnig cefnogaeth i gynorthwyo'r cyn-filwyr i ddygymod â'r profiadau a gawsant. Cofiwn yn arbennig am heriau'r Cenhedloedd Unedig i blethu'r cenhedloedd oll i fyw'n gytûn a rhag-weld y peryglon pan fydd ysgarmesoedd lleol yn troi'n fflamau arswydus ac erchyll ledled y byd. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried
1. Pwy oedd y 'barnwyr' a'r 'rhagrithwyr' y mae Iesu'n cyfeirio atynt yn y darlleniad?
2. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'barnu eraill', a mynegi barn/safbwynt am eraill?
3. Pam y dylem ymddiddori yn nigwyddiadau trasig y byd?
4. Beth sy'n symbylu trais yn y byd, a chasineb ynom ni?
5. Bydd sawl etholiad yn cael ei gynnal ar draws y byd eleni. Beth fyddai eich cwestiwn mwyaf treiddgar chi i'r ymgeiswyr yn yr etholiadau hyn, neu a fyddwn yn ymbalfalu â'r materion sy'n berthnasol i'n cymunedau ein hunain yn unig?

**EGLWYS FEDYDDIEDIG SARDIS, RESOLFEN**

**TAITH GENHADOL**

dan nawdd yr eglwys (Saesneg) uchod
i weithio gyda phlant ac oedolion
mewn eglwysi ac ysgolion
yn

BRASIL

29 Gorffennaf–21 Awst 2024



☞Os ydych am ymuno â ni
cysylltwch â Peter Davies ar
fs111@btinternet.com

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 16 Mehefin – Taith Gerddorol**
Ymunwch â Lisa Gwilym ar Ynys Môn i fwynhau gwledd o emynau a pherfformiadau, wrth i ni ddathlu ein traddodiad disglair o ganu mawl. Ymhlith yr artistiaid fydd y soprano boblogaidd Ellen Williams.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 16 Mehefin, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Eileen Davies

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 16 Mehefin, am 12yp**
Oedfa dan ofal Ifan a Catrin Roberts, Caerdydd

# Adroddiad o Bwyllgor Gweinyddol Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd, Grand Rapids, UDA: 16–23 Mai 2024

*Dyma ail ran yr adroddiad byr o Bwyllgor Gweinyddol Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd yn UDA.*



## Cyfamod Cyfiawnder

Derbyn a chynnig sylwadau ar ddogfennau trafod sydd wedi bod yn cael eu paratoi ar gyfer y Gymanfa Gyffredinol fu ein prif waith. Bwriedir cyflwyno chwe thema i drafodaeth a dirnadaeth y Gymanfa: Cymundeb Cristnogol, Cyfamod Cyfiawnder, Cenhadaeth, Cysylltiadau Eciwmenaidd a Rhyng-grefyddol, Pobl Gynhenid ac yn fwy cyffredinol thema yn ymwneud â Diwinyddiaeth y Credo Diwygiedig. Dros y misoedd diwethaf rwyf wedi bod mewn trafodaethau gyda rhyw hanner dwsin o gyd-Gristnogion wrth i ni baratoi'r ddogfen ar Gyfamod Cyfiawnder. Bu'n fraint cael cyd-drafod gyda chyfeillion o'r Cenhedloedd Unedig, y Fforwm Cristnogol Byd-eang, Cyngor Eglwysi'r Byd a Chyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM).

Yn ein dogfen ar Gyfamod Cyfiawnder trafodwn sut mae'r system economaidd gyfredol, sy'n seiliedig ar fodel o dwf ac sy'n gweld y greadigaeth fel ffynnon y gellir tynnu adnoddau diderfyn ohoni, yn sail y trychineb hinsoddol ac ecolegol a wynebwn. Gwelwn gyfalafiaeth yn atomeiddio cymdeithas gan arwain at chwalu undod a gosod pob un ohonom mewn cystadleuaeth â'n gilydd. Cydnabyddwn fod rhai enillion wedi'u gwireddu drwy ddatgymalu patriarchaeth a symud tuag at gydraddoldeb rhywiol, ond dengys ystadegau bod yna gynnydd mewn gwreig-gasineb sy'n arwain yn uniongyrchol at drais yn erbyn menywod a thwf mewn llefaru ffiaidd. Buom hefyd yn ystyried ideolegau goruchafiaeth gan geisio dadansoddi sut y gall rhesymeg braint gael ei defnyddio i rannu a chwalu undod gweithwyr ar sail hil ac ethnigrwydd. Gwelir pobl frodorol yn parhau i gael eu gwthio i'r cyrion; gwladychir eu tiroedd, dyfroedd a gwybodaeth gan ddiwydiannau echdynnu ac elw. Gorffen y ddogfen gydag ystyriaeth o'r ffaith ein bod, bellach, yng nghanol y Pedwerydd Chwyldro Diwydiannol, cyfnod a fydd yn cael ei dra-arglwyddiaethu gan ddibyniaeth ar ddeallusrwydd artiffisial ac a fydd yn debygol o arwain at ddiswyddo gweithwyr a lleihau argaeledd gwaith.

## Cymdeithasu

Cawsom hefyd fwynhau sesiynau mwy cymdeithasol. Braint oedd cael cynrychioli Ysgrifennydd Cyffredinol y Cymundeb, y Parchedig Setri Nyomi o Ghana, yn seremoni raddio Athrofa Ddiwinyddol Calfin. Cyd-ddigwyddiad llwyr, ond yn y seremoni honno anrhydeddwyd cyn-fyfyriwr am gyfraniad oes, yr Athro Emeritws Clifford Christians. Llynedd, gyda dyfodiad deallusrwydd artiffisial a'i oblygiadau enfawr ar asesu myfyrwyr, bûm yn darllen ymchwil yr Athro Christians wrth baratoi 'sylwadau' ar foeseg cyfryngau o'r fath i Ysgol y Biowyddorau ym Mhrifysgol Caerdydd. Amheuthun fu cael sgwrs ag ef. Ar y Sul, ymunodd rhyw hanner dwsin ohonom â chynulleidfa Eglwys Ddiwygiedig Ganolog Grand Rapids i ddathlu'r Pentecost. Dyma eglwys ddiwygiedig hynaf Michigan, fe'i sefydlwyd yn 1840. Cawsom groeso arbennig gan y gweinidog, y Parchedig Ddr Steve Pierce, ein holi am waith y Cymundeb mewn sesiwn Holi ac Ateb, cyn ymuno mewn cinio a sgwrs. Un o'r emyn donau a ganwyd yn y gwasanaeth oedd 'Aberystwyth'; bûm yn egluro i'r gynulleidfa mai Cymro oedd Joseph Parry a'i fod wedi enwi'r emyn dôn yn sgil mai ef oedd athro cyntaf yr adran gerddoriaeth newydd yng Ngholeg y Brifysgol, fel ag yr oedd, yn Aberystwyth. Bu i ni dreulio un diwrnod mewn cyfarfodydd yng Nghanolfan Gristnogol Genefa ar lannau llyn Michigan. Yn un o'r Pum Llyn Mawr, dros ginio, cymerais fantais o fynd lawr i'r llyn a'm meddwl yn llawn atgofion o'r hyn a ddysgais am y llynnoedd mewn gwersi Daearyddiaeth yn ysgol ramadeg Llandysul. Daeth y diwrnod hwn i ben mewn ymweliad i'r Athrofa Ddiwinyddol Orllewinol yn yr Iseldiroedd.

## Cofnodydd plygeiniol

Bu'n bum diwrnod prysur. Fe'm henwebwyd yn brif gofnodwr (*rapporteur*) y grwpiau dirnadaeth a chraffu, felly deuthum yn gyfarwydd iawn ag oriau mân y bore yn gweithio i gael adroddiadau i drefn ar gyfer ein cyfarfodydd plygeiniol a oedd yn dechrau am 0700! Fy nirprwy yn gwneud hyn oedd y Parchedig Veronica Muchiri o Eglwys Bresbyteraidd Dwyrain Affrica a da fu ein cydweithio a'n rhannu hanesion. Mae yna gyfnod prysur o'n blaenau fel Pwyllgor Gweinyddol wrth baratoi at Chiang Mai – eisoes mae gennym dri chyfarfod ar-lein wedi eu trefnu (dydw i ddim yn edrych ymlaen am yr un am 0300 ym mis Tachwedd).

Rwy'n gorffen trwy nodi cymaint o fraint yw cael bod yn ymwneud â'r sefydliad hwn. Mawr fy niolch i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; trwy Gymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd daeth addysg, cyfeillion, hwyl a chymdeithas i'm rhan – gwir *koinonia*. Daw fy nhymor i ben yn y Gymanfa Gyffredinol y flwyddyn nesaf – bydd y profiad a'r fendith yn aros am byth.



**Hefin Jones**


# Barn Annibynnol

## Goleuni drwy'r craciau

Does dim rhaid edrych ymhell iawn i weld mai pobl amherffaith mewn byd amherffaith ydyn ni. Byd o ryfel, newyn a dioddefaint; byd lle mae'n rhaid cynnal pwyllgor i benderfynu a ddylid atal bomio ysbytai Gaza; byd o rwystro bwyd a meddyginiaethau rhag cyrraedd unigolion a theuluoedd sydd wedi colli popeth.

At hynny, mae effeithiau newid hinsawdd yn gwbl amlwg mewn sawl gwlad – tymheredd yn codi, tywydd annaturiol ac eithafol, tanau gwyllt, llifogydd, cnydau'n methu. Gwelwyd erwau maith yn swydd Lincoln o dan ddŵr a'r ffermwyr yn anobeithio plannu na chynaeafu dim eleni.

Gweddïwn y bydd i Dduw gyffwrdd calonnau arweinwyr gwledydd sydd â'r gallu i wella bywydau.



### Llawer nes adre

Rhag i ni feddwl mai ym mhen draw'r byd y mae amherffeithrwydd unigolion a llywodraethau, does ond rhaid i ni feddwl am sefyllfa brodyr a chwiorydd yn llawer nes adre – dibyniaeth ar fanciau bwyd, costau byw cynyddol, trais yn y cartref ac ar y stryd, tlodi, digartrefedd a cholli swyddi – a'r gwan a'r bregus bob amser yn dioddef waethaf. Mae'n fyd lle mae'r bwlch rhwng y tlawd difreintiedig a'r cyfoethog cyfforddus yn mynd yn lletach bob dydd.

A beth am ein hamherffeithrwydd ni'n hunain? A siarad yn bersonol, gwn fy mod i'n rhy aml yn hunanol a diamynedd, yn rhy aml yn dangos diffyg cariad a pharch. Fel Paul:

> Dw i'n gwybod yn iawn pa mor ddrwg ydw i y tu mewn. Yr hunan ydy popeth! Dw i eisiau byw yn dda ond 'dw i'n methu!
> (Rhufeiniaid 7:18)

Ond mae Paul hefyd yn cynnig ateb drwy annog pobl Dduw i ddal ati er cymaint eu dioddefaint ac i gredu yn obeithiol a hyderus:


> Byddwn ni ddim yn cael ein siomi yn y gobaith yna am fod Duw eisoes wedi tywallt ei gariad yn ein calonnau drwy roi'r Ysbryd Glân i ni! Pan oedd pethau'n gwbl anobeithiol arnon ni, dyma'r Meseia'n dod ar yr adeg iawn i farw droson ni'r rhai drwg!
> (Rhufeiniaid 5: 5-6)

Mae Iesu'n ein caru er gwaethaf – neu oherwydd – ein ffaeleddau a'n gwendidau.

### Leonard Cohen

Gobaith ynghanol amherffeithrwydd ein byd a'n bywydau oedd ym meddwl Leonard Cohen pan ganodd:

> Ring the bells that still can ring,
> Forget your perfect offering;
> There is a crack in everything -
> That's how the light gets in.



Gellid cymhwyso cytgan 'Anthem' Cohen i gynrychioli gobaith y Cristion amherffaith, a gwaith yr Ysbryd Glân ynom. Drwy holl graciau ein bywydau y cawn ein hiacháu – am mai dyna sy'n gadael y Goleuni i mewn atom. Ynghanol pob gofid a siom, afiechyd a phryder, ein dyletswydd ni yw canu pob cloch bosibl i ddatgan ein gobaith yng Nghrist a'n hyder yn Nuw a'r ddynoliaeth.

### Cnul y clychau

Ymysg y clychau y gallwn eu canu y mae clychau gofal, consýrn a chydwybod gymdeithasol, clychau diolchgarwch, dyhead a dyfalbarhad, clychau cyffes, cyfiawnder a ffydd. I Gristnogion, y gloch uchaf ei sain yw honno sy'n datgan aberth Crist drosom, a dyfodiad yr Ysbryd Glân atom drwy graciau'n byw a'n bod.

Er mor dywyll y nos a hir y daith, anogaeth Iesu yw i ni ddal ati i ymdrechu '... i fod yn berffaith fel y mae'ch Tad nefol yn berffaith.' (Mathew 5:48) Diolch am y craciau ynom sy'n gadael y goleuni i mewn (a diolch i Lywydd yr Undeb am fy ngoleuo i ambell berl gan Cohen!)

**Eurig Davies**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)


**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

**Dyma gyfle i ymuno mewn cyfres o sesiynau fydd yn archwilio Addoli a Phregethu, ac yn eich arwain ar daith drwy'r Beibl.**

**Addoli a Phregethu**

Tiwtor: Parchedig Carwyn Siddall

Mae gwahanol fathau o addoliad, yn cynnwys addoliad pob oed, gwasanaethu mewn ysgolion, a gwasanaethau byr wrth ymweld ag aelwydydd. Mae cynnwys addoliad hefyd yn gallu amrywio, megis oedfa bregethu, oedfa pryd y gweinyddir un o'r sacramentau, neu oedfaon ar gyfer achlysur penodol megis priodas neu angladd.

Bydd y modiwl hwn yn rhoi cyfle i archilio'r amrywiol fathau, ac ystyried sut y dylid mynd ati i baratoi ac arwain oedfaon o wahanol fathau.

**Dyddiadau:** 20, 27 Mai, 3, 10, 17, 24 Mehefin, 1, 8 Gorffennaf.

**Amser a Lleoliad:** 7:00 - 8:00 o'r gloch yr hwyr, ar Zoom.

**Deall yr Ysgrythurau: Y Beibl**

Tiwtor: Arfon Jones

Yn allweddol i'r ffydd Gristnogol mae'r hyn a ddatguddir i ni drwy Air Duw, ac a gofnodir yn y Beibl. Drwy'r modiwl hwn, cynigir cyfle i'r sawl sy'n dilyn y modiwl gael dealltwriaeth ddyfnach o agweddau gwahanol o gynnwys y Beibl, ac astudio themâu penodol ohono.

**Dyddiadau:** 3, 10, 17, 24 Mehefin, 1, 8, 15, 22 Gorffennaf.

**Amser a Lleoliad:** 8:00 - 9:00 o'r gloch yr hwyr, ar Zoom.

Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno yn y sesiynau uchod, a gellir dilyn un ohonynt yn unig, neu'r ddau.

Dyma'r modiwlau disgwyliedig ar gyfer cymhwyso fel pregethwyr cynorthwyol cydnabyddedig hefyd. Os mai dyna eich dymuniad, nodwch hynny wrth gofrestru.

I gofrestru ar gyfer y sesiynau hyn, neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Parchedig Carwyn Siddall, Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau Undeb yr Annibynwyr Cymraeg: carwyn@annibynwyr.cymru



Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin

**SUL SBESIAL 2024**

Yr Egin, Caerfyrddin

14 Gorffennaf 2.00-3.15



Siaradwr Gwadd:

**Dafydd Llywelyn**

Comisiynydd Heddlu Dyfed-Powys

Llywyddu:

Parchg GUTO PRYS AP GWYNFOR

Sesiwn y plant: KAREN OWEN

Yn cyfeilio: BAND Y PRIORDY

Mynediad am ddim. Caffi ar agor.

Croeso cynnes iawn i bawb!

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Rhaglen y Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Dwyrain Morgannwg 2024

*Oni nodir yn wahanol, cynhelir y cyfarfodydd ar gampws Prifysgol De Cymru, Trefforest, Pontypridd*

## DYDD IAU, 11 Gorffennaf 2024

**1.30** **CYNHADLEDD 1 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Jeff Williams
Defosiwn yng ngofal y Parchg Owain Llŷr Evans

**2.00** Ymddiheuriadau am absenoldeb
Cyflwyno Adroddiad Undeb Dwyrain Dinbych a Fflint 2023 (*y Llyfr Gwyrdd*)
Croesawu Cyfarfodydd Blynyddol 2025 Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd
Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol *

**3.00** Te a chacen a chroeso
Croesawu a derbyn ymwelwyr

**4.00** **Cyfarfod Heddwch ***
Parchg Ron Williams: 'Llais o Fethlehem'
Cadeirydd: Parchg Guto Prys ap Gwynfor

**5.30** Egwyl

**6.00** Swper

**7.30** **Noson yng nghwmni Delwyn Siôn a chyfeillion ***

## DYDD SADWRN, 13 Gorffennaf 2024

**9.30** Defosiwn yng ngofal Mr Emlyn Davies *

**10.00** **Cyflwyniad eglwysi ***
Llanfair Pen-rhys, Tabernacl Efailisaf a'r Angor Grangetown

**11.00** Te/coffi

**11.30** **CYNHADLEDD 4 ***
Cadeirydd: Mr Dafydd Roberts
Emyn
Defosiwn: Parchg Noel Davies
Casgliad i Gymorth Cristnogol
Anerchiad y Llywydd
Emyn
Y Fendith

**12.30** Cinio ac ymadael

*Dangosir cyflwyniadau Cwpan Denman yn ystod y cynadleddau*
** Caiff y sesiynau hyn eu ffrydio'n fyw ar wefan annibynwyr.cymru*

## DYDD GWENER, 12 Gorffennaf 2024

**9.30** **CYNHADLEDD 2 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Jeff Williams
Defosiwn yng ngofal y Parchg Owain Llŷr Evans

**10.00** Etholiadau:
- 2 i wasanaethu ar y Cyngor am 3 blynedd
- Hyd at 3 i wasanaethu ar y Pwyllgor Gweinyddol am 3 blynedd
- cyfreithiwr ac archwiliwr am y flwyddyn

Adroddiad y Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau *
Y Cyfansoddiad
Apêl Ffynhonnau Byw Cymorth Cristnogol – diweddariad

**11.00** Te/coffi

**11.30** Adroddiad y Cyngor a'i Adrannau

**12.00** Anerchiad gan Parchg Susan Durber, Llywydd Cyngor Eglwysi'r Byd *
*'Faith, unity and mission in Wales 2025: encouragement from Nicaea 325'*
Cadeirydd: Parchg Jeff Williams

**1.00** Cinio

**2.00** **CYNHADLEDD 3**
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Jeff Williams
Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddol
Penderfyniadau:
Penderfyniad 1: Swyddog i ddarparu arweiniad a chymorth ymarferol
Adroddiad y Trysorydd
Derbyn gweddill cofnodion y *Llyfr Glas*
Cydnabod gwasanaeth y cyn Ysgrifennydd Gweinyddol, Miss E. Ann Williams a'r cyn Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Wasg, Mr Alun Lenny
Unrhyw Fater Arall
Y Fendith

**3.30** Te/coffi

**4.00** **Cyfarfod Hanes ***
'Cofio Wncwl Bill' sgwrs gan Richard Huws ar fywyd a gwaith Rhys Nicholas (1914–96)

**5.00** Egwyl

**5.30** Swper

**7.30** **OEDFA O FAWL** yn Tabernacl, Efailisaf *
Llywydd: Parchg Jeff Williams
Galwad i addoli
Emyn
Darllen: Sian Meinir
Gweddïo: Parchg Emyr Gwyn Evans
Gweddi'r Arglwydd
Casgliad i Gymorth Cristnogol
Emyn
Coffáu'r rhai a fu farw. Gweddi: Parchg Allan Pickard
Dymuno'n dda i weinidogion a ymddeolodd
Croesawu gweinidogion newydd
Cyflwyno tystysgrifau hyfforddiant
Emyn
Pregeth: Parchg Euron Hughes
Emyn
Y Fendith

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*